# Cofnodion y Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol

Dyddiad y Cyfarfod – 4 Medi 2020 am 10:00am - 11:30am

drwy Microsoft Teams

## Yn bresennol:

Debbie Lambe – Cadeirydd
Rachel Pierce-Jones - Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol
Ann Lloyd – Sir Ddinbych
Arwel Jones - Ynys Môn
Carys Fôn Williams – Gwynedd
Gwyn Roberts – Gwynedd
Shirley Jones - Wrecsam
Debbie Williams - Wrecsam
Sam Parry - Conwy
Martin Cooil – Sir y Fflint
Lisa Pearson - Sir y Fflint
Diane Jones - Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Elwen Roberts – Swyddog Rhanbarthol Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
Ben Carter - Bwrdd Cynllunio Ardal
Steffan Llyr Williams - Cynrychiolydd Darparwr GISDA
Linda Hughes - Cynrychiolydd Darparwr Clwyd Alyn
Emma Wood - Cynrychiolydd Darparwr Hafan Cymru

## 1. Ymddiheuriadau:

Elliw Llyr – Ynys Môn, Dafydd Gibbard – Gwynedd, Abbe Harvey a Claire Owens – Sir Ddinbych, Phil Forbes – Iechyd Meddwl, Lynne Evans – TGC, Wendy Hughes – Digartref, Andy Jones – BCA, Jono Clarke – Y Gwasanaeth Prawf

## 2. Croeso a Chyflwyniadau a Datgan Cysylltiad:

Gwnaed cyflwyniadau ar ddechrau cyfarfod rhithwir cyntaf y grŵp hwn. Bydd ffurflenni Datgan Cysylltiad yn cael eu hanfon ar ôl y cyfarfod hwn er mwyn i bawb eu llenwi a'u dychwelyd at y CDRh.

Cadeiriodd Debbie Lambe y cyfarfod hwn, y cyfarfod cyntaf fel Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol sydd newydd ei ffurfio.

## 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol

Mewn cyfarfodydd yn y dyfodol bydd yr eitem sefydlog hon ar y rhaglen yn cynnwys y CDRh yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y cynnydd a wnaed yng nghynllun gwaith y Datganiad Blynyddol, fodd bynnag gan mai hwn yw ein cyfarfod cyntaf a diben y rhaglen heddiw yw i gytuno ar gynllun gwaith, cyflwynodd y CDRh ei rôl a rôl y grŵp hwn.

Ychwanegodd Rachel fod swydd y CDRh wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd y CDRh yn cefnogi gweinyddiaeth y GCCTRh ac yn cefnogi darpariaeth cynllunio a chomisiynu rhanbarthol.

Bydd y CDRh yn cryfhau cysylltiadau gyda byrddau rhanbarthol eraill yn enwedig y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y CDRh, ar y cyd ag aelodau, yn paratoi Datganiad Blynyddol ac yna

bydd y CDRh yn gwthio'r meysydd blaenoriaeth hyn ymlaen, yn trefnu cyfarfodydd, yn casglu gwybodaeth er diben hynny ac yn darparu adroddiadau diweddaru i'r GCCTRh.

Disgwylir y bydd y GCCTRh yn gweithio ar y pedwar pwynt bwled allweddol canlynol y mae LlC yn eu hystyried yn waith rhanbarthol. Mae'r pwyntiau bwled hyn yn feysydd cynllun gwaith y byddwn yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer pob tasg.

- Datblygu gwasanaethau arbenigol lle nad oes màs critigol yn lleol
- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle gellir ei gyfiawnhau yn ôl arbedion maint
- Darparu gwelliannau i'w cyflawni trwy gydweithio
- Cydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Bydd y GCCTRh yn sicrhau darpariaeth effeithiol o'r Grant Cymorth Tai ac yn gwneud gwelliannau lle bo'r angen.

Hefyd, dywedodd y CDRh y bydd pob aelod newydd o'r GCCTRh yn cael sesiwn gynefino a bydd Rachel yn sicrhau fod pob aelod newydd wedi cwblhau sesiwn gynefino erbyn y cyfarfod nesaf.

Esboniodd y CDRh, yn dilyn ymadawiad Gwynne Jones fel Cynrychiolydd Landlordiaid yn y GCCTRh, fod gennym chwech o gynrychiolwyr darparwyr a landlordiaid o hyd i gyd-fynd â'r chwe awdurdod lleol a gofynnodd i aelodau os oeddent yn fodlon i ni beidio â mynd at CCC am gynrychiolydd arall. Roedd y GCCTRh yn fodlon â'r awgrym hwn. Roedd y cynrychiolwyr landlordiaid a darparwyr hefyd wedi cytuno ar hyn cyn y cyfarfod.

## 4. Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y PCRh

Rhoddodd Debbie Lambe grynodeb o gofnodion cyfarfod diwethaf y PCRh a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020. Roedd Paul Webb (Llywodraeth Cymru), a oedd ar y pryd yn arwain ar weithredu'r Grant Cymorth Tai, yn bresennol ac fe gyflwynodd y diweddaraf ynglŷn â datblygiadau'r Canllawiau Grant Cymorth Tai. Mae Paul Webb bellach yn arwain y Grant Plant a Chymunedau.

Treuliwyd rhan helaeth o'r cyfarfod yn trafod ail-ddosbarthu, gan fod Paul Webb yn bresennol roedd yn hanfodol ein bod yn cyfleu'r problemau a wynebir yng Ngogledd Cymru o ran ail-ddosbarthu yn ehangach. Dywedodd Rachel y byddai Ail-ddosbarthu yn cael ei roi ar y rhaglen i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y GCCTRh i sicrhau fod pob aelod newydd yn ymwybodol o'r gostyngiad o ran goblygiadau cyllido.

## 5. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

Mae Is-Grŵp y GCCTRh wedi derbyn dau enwebiad ar gyfer cadeirio'r GCCTRh, un ar gyfer swydd y Cadeirydd ac un arall ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd. Yn ystod y cyfarfod heddiw a dros wyliau'r haf fe ehangwyd hyn i gynnwys holl aelodau'r GCCTRh i gyflwyno enwebiadau ar gyfer swyddi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.
Cytunwyd y dylai unrhyw un sy'n dymuno bod yn Gadeirydd gyflwyno ei enw / ei henw i Rachel, ac os oes unrhyw un eisiau enwebu rhywun arall i fod yn Gadeirydd dylid sicrhau bod yr unigolyn a enwebir yn ymwybodol o hynny cyn anfon yr enw at Rachel. Y dyddiad cau yw 18 Medi, 2020.

## 6. Cylch Gorchwyl

Dosbarthwyd cylch gorchwyl y GCCTRh ac Is-Grŵp y GCCTRh gyda'r papurau ac fe gafodd ei rannu gyda'r grŵp dros wyliau'r haf er mwyn cyflwyno unrhyw sylwadau terfynol. Mae'r holl sylwadau

sydd wedi dod i law hyd yma wedi cael eu hadlewyrchu yn y newidiadau. Nodwyd y dylid cyflwyno unrhyw sylwadau terfynol ar y Cylch Gorchwyl i Rachel erbyn 18 Medi, 2020.

## 7. Datganiad Blynyddol

Cyflwynodd Rachel ddrafft o Ddatganiad Blynyddol y GCCTRh. Esboniodd Rachel fod hwn yn ddatganiad blynyddol sy'n amlinellu cynllun gwaith y GCCTRh sy'n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fel arfer, byddai'r flwyddyn galendr yn mynd o fis Ebrill i fis Ebrill, fodd bynnag, oherwydd Covid-19, bydd y cynllun gwaith yn mynd o fis Medi i 31 Mawrth 2021. Esboniodd Rachel fod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwaith rhanbarthol fel y pedwar pwynt bwled allweddol a soniwyd amdanynt yn gynt yn y cyfarfod, sef:

- Datblygu gwasanaethau arbenigol lle nad oes màs critigol yn lleol
- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle gellir ei gyfiawnhau yn ôl arbedion maint
- Darparu gwelliannau i'w cyflawni trwy gydweithio
- Cydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Esboniodd Rachel y bydd ein cynllun gwaith yn cael ei rannu o dan y penawdau isod yn ogystal â gwaith sydd wedi'i ddwyn ymlaen o gynllun gwaith y PCRh.

### Gwaith wedi'i ddwyn ymlaen o'r PCRh

- Y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol
    - Esboniodd Rachel fod y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru wedi cael ei mabwysiadu gan y PCRh gynt ac wedi i'r grŵp hwn gwrdd ar 24 Medi i gadarnhau ei gynllun gwaith bydd yn rhoi gwybod i'r GCCTRh.
- Holiadur Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth Ar-lein
    - Cytunwyd bod yr holiadur ar-lein a ddatblygwyd gan y PCRh yn aros ar-lein. Mae hwn yn fecanwaith allweddol i gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac mae'r dadansoddiad hyn yma wedi bod yn bwerus.
- Hanesion Ein Pobl
    - Cynnyrch arall gan y PCRh, dogfen sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol i gyflwyno astudiaethau achos arbed costau gan bob awdurdod lleol. Cytunwyd y dylid parhau i wneud hyn.
    - Astudiaethau achos dadansoddiad cost a budd – trafodwyd hyn yn y cyfarfod heddiw a bod arnom angen fformiwla ar gyfer gwneud hyn yn y dyfodol.

Cytunwyd hefyd ein bod angen hyrwyddo'r Grant Cymorth Tai yn ogystal â'n henw newydd y Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol. Byddwn yn edrych ymhellach ar greu gwefan GCCTRh Gogledd Cymru.
Bydd y wefan hon yn cynnwys gwybodaeth megis manylion cyswllt pob ALl, manylion cyswllt ar gyfer gwneud atgyfeiriadau, y Llwybrau / Pyrth, man i gadw dogfennau rhanbarthol, a chofnodion. Trafodwyd y posibilrwydd o ddatblygu'r wefan yn fan i'r Sector Rhentu Preifat gyfeirio ato am wybodaeth, gyda'r cyswllt â Rhentu Doeth Cymru. Gwybodaeth Street Link ar y wefan. Bydd Rachel yn cyflwyno cynllun drafft ar gyfer y wefan yn y cyfarfod nesaf.

### Camau gweithredu cynllun gwaith o dan bob pennawd allweddol ar gyfer gwaith rhanbarthol:

- **Datblygu gwasanaethau arbenigol lle nad oes màs critigol yn lleol**
    - Lloches Cam-Drin Domestig (camddefnyddio sylweddau / iechyd meddwl)
        - Lloches arbenigol ar gyfer diagnosis deuol.

    - Cytunodd Elwen Roberts (VAWADSV) a Diane Jones (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) i arwain y cam gweithredu hwn.
  - Achosion MAPPA ac RSO
    - Grŵp allweddol arbenigol ar gyfer yr atgyfeiriadau hyn.
    - Cytunodd Debbie Williams a Shirley Jones i arwain y cam gweithredu hwn.
  - Y Sector Rhentu Preifat
    - Nododd Rachel fod yr uchod yn thema gyffredin ym mhob Cynllun Cam 2 yn trafod gwella cyfathrebu, gwybodaeth a'r mannau y gall Landlordiaid droi atynt.
    - Trafodwyd y gellid cynnwys hyn gyda gwaith gwefan y GCCTRh.
  - Unedau Dulliau Adeiladu Modern
    - Yn y Cynlluniau Cam 2, mae 4 o'r 6 Awdurdod Lleol yn mynd ar drywydd Dulliau Adeiladu Modern.
    - Rachel i drefnu grŵp ar gyfer y dasg hon.
    - Cytunodd Sam Parry i arwain y maes blaenoriaeth hwn.

- **Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle gellir ei gyfiawnhau yn ôl arbedion maint**
  - Dadansoddi Data – beth yw'r galw yn y dyfodol?
    - A oes unrhyw beth y gallwn ei wneud o ran gwaith ymchwil neu ddata i geisio cael gwell dealltwriaeth o newidiadau o ran anghenion llety a chymorth o ganlyniad i Covid.
    - Homeless Link – Rachel i edrych ar hyn.

- **Darparu gwelliannau i'w cyflawni trwy gydweithio**
  - Prosiect Allgymorth Pendant GC
    - Mae pob awdurdod lleol o fewn eu Cynlluniau Cam 2 wedi cyfrannu oddeutu 9k tuag at Swyddog Iechyd Meddwl ychwanegol ar gyfer y Prosiect Allgymorth a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'u hawdurdod am 2.5 diwrnod yr wythnos.
    - Mae Paul Firth a Ben Carter yn arwain y cam gweithredu hwn.
  - VAWDASV
    - Cyfrannodd y PCRh gynt at gyfraniad rhanbarthol am wasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) Rhanbarthol.
      - Os nad yw Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyfrannu at hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf, dylent roi gwybod i Debbie Lambe.

- **Cydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill**
  - Grŵp Cydlynu Adfer GC
    - Trafodir hyn yn Eitem Rhif 8
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)
    - Trafodir hyn yn Eitem Rhif 9
  - Gweithio'n agosach ag Iechyd
    - Gofynnodd Rachel am eglurder pellach ar yr awgrym hwn ac fe awgrymodd y dylid cwrdd â Phil Forbes i drafod.

Camau nesaf – Bydd Rachel yn ail-ddrafftio'r cynllun gwaith yn dilyn y sylwadau a gyflwynwyd heddiw. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 11 Medi. Rhaid cyflwyno'r fersiwn derfynol i LlC erbyn 30 Medi, 2020.

## 8. Grŵp Cydlynu Adfer Gogledd Cymru

Eglurodd Rachel fod darn o waith wedi'i gyfeirio at y GCCTRh gan y Grŵp Cydlynu Adfer (GCA). Ysgrifennodd Judith Greenhalgh, Prif Swyddog Gweithredol Sir Ddinbych a Chadeirydd y GCA at Is-Gadeirydd y PCRh a'r CDRh ym mis Gorffennaf 2020.

Roedd hyn yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd gan y GCA gyda rhan aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn y gweithdy hwn fe nodwyd bod sawl maes gwasanaeth angen dull rhanbarthol, ac roedd Tai / Digartrefedd ac Atal yn un o'r themâu y gofynnwyd i'r GCCTRh adrodd arni.

Mae angen i'r GCCTRh lunio cynllun yn amlinellu'r gweithgareddau adfer sydd eu hangen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir yn sgil Covid-19. Mae Rachel wedi anfon yr adroddiad gwaelodlin ac fe gafodd ei gyflwyno i'r GCCTRh i'w drafod. Cyflwynodd Rachel hwn yng nghyfarfod yr Arweinwyr Cell Rhanbarthol yr wythnos hon ac fe gytunodd y grŵp fod angen iddo fod ar lefel uwch. Mae Rachel wedi gofyn am sylwadau ar y risgiau tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir a'r risgiau allweddol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Bydd Rachel yn ail-ddrafftio'r adroddiad yn dilyn sylwadau heddiw ac yn ei anfon eto, rhaid anfon sylwadau terfynol at Rachel erbyn 10 Medi gan fod rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 14 Medi.

Esboniodd Rachel hefyd fod Rhwydwaith Tai Cymru Gyfan yn gwneud darn o waith ar y gwersi a ddysgwyd drwy Covid-19, bydd Rachel yn anfon cais am beth y maent ei eisiau i bob aelod o'r GCCTRh er mwyn i ni allu defnyddio hyn fel dogfen Gogledd Cymru sydd hefyd yn bwydo i ddogfen Cymru Gyfan. Rachel i anfon y cais, y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 11 Medi.

## 9. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Dywedodd Debbie Lambe y bydd Cadeirydd y BPRh yn ysgrifennu at Benaethiaid y Grŵp Tai i wneud cais am enwebiad i fod yn rhan o'r BPRh fel Arweinydd Tai'r Awdurdod Lleol. Dywedwyd y dylai'r cynrychiolydd hwn o'r awdurdod dewisedig fod yn awdurdod heb ei stoc ei hun er mwyn sicrhau cydbwysedd ar y BPRh i gynrychioli awdurdodau ac nid LCC.

Bydd Sam Parry'n mynychu cyfarfod y Penaethiaid Tai a bydd yn sicrhau bod y pryderon a godwyd heddiw yn cael eu rhannu yn y cyfarfod wrth enwebu cynrychiolydd ar gyfer y BPRh.

Bydd yr eitem hon ar y rhaglen nesaf am ddiweddariad pellach.

## 10. Unrhyw Fater Arall

Dim.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Tachwedd 2020.**